Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 18: 10856 (Rhan 1)

**BCW-10856 / [redacted] / Cas-gwent**

[redacted]

Annwyl Mrs Ustus y Fonesig Nerys Jefford,

Gobeithio eich bod chi a'r holl dîm yn cadw'n iach a bod y gwaith yn mynd yn iawn. Cadwch fy holl fanylion, enw, cyfeiriad, ac ati yn breifat a chyfrinachol os gwelwch yn dda. Er bod hwn yn cwmpasu Cymru gyfan, fe'i cyflwynir mewn pedwar rhanbarth, ar gyfer pob rhan o Gymru. Y rhanbarthau hynny yw Gogledd Cymru, Canolbarth a De Orllewin Cymru, Canol De Cymru, De Ddwyrain Cymru.

Ar gyfer hyn mae'r rhain wedi'u cyfansoddi fel a ganlyn:

GOGLEDD CYMRU- Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam.

CANOLBARTH A DE ORLLEWIN CYMRU- Powys, Ceredigion, Sir Benfro/ Penfro, Sir Gaerfyrddin.

CANOL DE CYMRU- Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg.

DE DDWYRAIN CYMRU- Caerdydd, Casnewydd, Mynwy, Tor-faen, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf.

Gyda 32 o etholaethau, mae hyn yn rhoi saith etholaeth ar gyfer Gogledd Cymru. Chwe etholaeth ar gyfer Canolbarth a De Orllewin Cymru. Saith etholaeth ar gyfer Canol De Cymru. Deuddeg etholaeth ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Gyda gostyngiad o bumed (20%) mae hyn yn golygu newidiadau i'r holl etholaethau ac eithrio etholaeth warchodedig Ynys Môn. Ychwanegir at hyn gan amrediad yr etholwyr. Mae'n rhaid cadw at hwn ac felly dyma'r ffactor pennaf. Mae'n rhaid i bob un o'r 31 o etholaethau fod o fewn yr amrediad etholiadol hwn. Felly, mae'n rhaid i etholaeth ehangu/ gynyddu hyd nes ei bod yn cyrraedd terfyn isaf (69,724) yr amrediad etholiadol. Rhaid iddi beidio â bod yn fwy na'r terfyn uchaf (77,062). Mae'n rhaid i'r tri deg ac un etholaeth hyn fod o fewn yr amrediad etholiadol hwn 69,724- 77,062 yn gynhwysol. Fel arfer mae hyn yn golygu y bydd unrhyw newid yn cael effaith yn rhywle arall. Felly, mae'n rhaid i unrhyw newid ystyried yr effaith hon. Felly, un diben i'r arolwg hwn yw newid etholaethau- newid yr etholaethau presennol. Yr unig ffactor statudol y mae'n rhaid ei ystyried yw'r amrediad etholiadol. Caiff rhai eraill eu hawgrymu. O'r rhain, mae cysylltiadau lleol yn bwysig iawn, ac fe'u mynegir gan gymunedau ledled Cymru. Dylid parchu'r rhain. Un peth arall sy'n gyson yw'r Awdurdodau Lleol. Y rhain, y mae'r bobl a'u cynrychiolwyr Seneddol yn delio â nhw. Felly mae'r rhain yn bwysig. Wrth gwrs, caiff y topograffi ddylanwadu- yn enwedig yng Nghymru. Gall ffurfio rhwystr, yn enwedig mynyddoedd. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r broses ffurfio etholaethau osgoi eu cael mewn etholaeth, fel arall caiff rhannau datgysylltiedig eu ffurfio. Mae angen osgoi'r rhain. 'Rhannu datgysylltiedig' yw lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill yn

golygu gorfod teithio drwy etholaeth wahanol. Mae angen i wardiau fod yn gyfan, nid wedi'u hollti/ rhannu a rhaid iddynt fod yn gyffiniol â'i gilydd. Mae'n rhaid iddynt fod o gymunedau cyfan, ac felly rhaid cadw at Gymunedau Cymru. Mae Cymunedau ac Amrediad Etholiadol yn hollbwysig a rhaid cadw atynt bob amser- nodwedd gyson drwyddi draw a gyda PHOB UN ohonynt.

Niferoedd Etholwyr yw'r rheiny a ddefnyddir yn y Cynigion Diwygiedig. Ceir map yn y cefn ar gyfer darlunio, tudalen 13.

## Gogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru'n cynnwys etholaeth warchodedig Ynys Môn. Mae hyn yn cyfyngu, ac yn rhoi mwy o gyfyngiadau ar, y chwe etholaeth arall. Bydd hyn yn rhoi dwy etholaeth i'r Gogledd Orllewin a phedair etholaeth i'r Gogledd Ddwyrain. Yn sylfaenol, ceir dwy ymagwedd yma. Ffurfio etholaethau sy'n dilyn cyfansoddiadau gwahanol yr ardaloedd amrywiol gan eu gwneud yn etholaethau ar wahân. Ffurfio etholaethau sy'n integreiddio'r ddau hyn i gyd-adweithio gan eu gwneud yn etholaethau cymysg. Y ffordd olaf hon oedd yr ymagwedd a ddefnyddiwyd ar gyfer y Cynigion Cychwynnol. Mae'r Cynigion Diwygiedig yn tueddu tuag at y ffordd flaenorol o fynd ati i ffurfio etholaethau.

Etholaeth 16 – Dwyfor Meirionnydd – mae'n cynnwys y rhan fwyaf o Arfon. Mae ei henw presennol yn eithrio hyn a'r dref bwysicaf yn yr etholaeth- Caernarfon. Roedd y rhan fwyaf o'r ardal mewn dwy sir yn wreiddiol- Caernarfon a Meirionnydd. Mae'r etholaeth hon yn cwmpasu'r rhan fwyaf o Wynedd bresennol. Enw addas a mwy priodol fyddai naill ai Caernarfon Meirionnydd (yn hanesyddol) neu Gwynedd (cyfredol/ presennol). Efallai mai'r enw mwyaf addas yw Gwynedd.

Etholaeth 3- Bangor Aberconwy – mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Fwrdeistref Sirol Conwy. Mae Bangor yn cwmpasu'r rhan o Wynedd. Mae'r enw Aberconwy o hen ddosbarth Aberconwy- a gymerodd Dyffryn Conwy i mewn (nid aber yr afon yn unig). Yn y Cynigion Cychwynnol, yr etholaeth hon oedd yr hen ddosbarth hwn yn bennaf ynghyd â rhan "Bangor". Yn y Cynigion Diwygiedig, mae'r etholaeth yn cymryd llawer mwy na hyn i mewn ac mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o ddosbarth presennol Conwy. O ran etholaethau presennol, mae'n cymryd llawer o Orllewin Clwyd. Mae'r enw Aberconwy yn cynnwys/ cyfeirio at y rhan helaeth o'r etholaeth newydd hon. Mae'r etholaeth newydd hon yn cymryd y rhan fwyaf o Fwrdeistref Conwy bresennol i mewn. Ar gyfer y rhan hon o'r etholaeth, yr enw gorau fyddai Conwy. Mae Bangor yn cynnwys Ardal Bangor o'r etholaeth. Mae Conwy yn cynnwys Ardal Conwy o'r etholaeth. Pa drefn ddylai'r enwau ei dilyn? Yn gyntaf, yr enw sy'n cyfeirio at yr etholaeth fwyaf (a'r rhan fwyaf ohoni felly)? Yn gyntaf, dilyn y wyddor? Pa un sydd â'r nifer fwyaf o etholaethau yn ffactor penderfynu (cyfran fwyaf) Conwy Bangor.


Etholaeth 15- Mae Gogledd Clwyd yn cynnwys y trefi gwyliau arfordirol a glan orllewinol afon Clwyd i lawr at Ddinbych. Peidio â rhannu Rhyl a Phrestatyn fu galwad/ cri llawer. Nad yw'r Rhyl a Phrestatyn i'w gwahanu. Mae'r ddau yn rhan o'r un awdurdod lleol- Sir Ddinbych. Nid yw bob ochr iddynt yn rhan ohono. I'r dwyrain ceir Sir y Fflint, a Bwrdeistref Conwy i'r gorllewin. Mae gan y ddau hyn gysylltiadau cryfach o lawer â'i gilydd nag i'r naill ochr iddynt- naill ai'r Rhyl â Bae Cinmel a

Thywyn, neu Brestatyn â Ffynnongroyw, Gronant, neu Drelawnyd a Gwaenysgor sydd yn Sir y Fflint. Mae wardiau Sir y Fflint yn agosach at rai eraill yn Sir y Fflint fel Mostyn, Chwitffordd, ac ati. Mae'r rhain i gyd yn wardiau gwledig "heb fod yn rhai gwyliau". Gan fod wardiau Prestatyn yn wardiau trefol "gwyliau".

Felly, mae angen i Rhyl a Phrestatyn fod gyda'i gilydd p'un ai na all y naill neu'r llall, neu'r ddau fod gyda'i gilydd. Mae graddfa'r cyswllt rhwng y ddwy dref hyn yn fwy o lawer nag ag unrhyw rai eraill. Felly, rhaid i'r ddwy dref wyliau hon fod gyda'i gilydd yn yr un etholaeth. Hynny yw i Brestatyn symud o Ddwyrain Clwyd i Ogledd Clwyd.

Mae ffin ddwyreiniol Gogledd Clwyd yn mynd ar hyd Glan Orllewinol rhan o afon Clwyd. Byddai'n fwy naturiol i ddwy lan afon Clwyd fod gyda'i gilydd (fel ag y mae ymhellach i'r de). Mae Dyffryn Clwyd cyfan (y naill ochr i'r afon) gyda'i gilydd wrth fynd tua'r de yn y Dyffryn (priodol). Felly mae yn etholaeth Dyffryn Clwyd bresennol. Felly, byddai Glan Orllewinol afon Clwyd - Rhuddlan, Bodelwyddan, Llanelwy (dwyrain a gorllewin), Trefnant, Dinbych (Isaf/ Canolog / Uchaf) yn mynd o Ogledd Clwyd i Ddwyrain Clwyd.

Felly, Prestatyn i fynd i Ogledd Clwyd a byddai glan orllewinol Afon Clwyd yn mynd I Ddwyrain Clwyd.





Gallai'r enw ar gyfer etholaeth 15 fod yn enw'r trefi ar bob pen iddi, sef Prestatyn Rhos. Gallai fod ar ôl y brif nodwedd ffisegol, sef Bae Colwyn. Nid yw'n cynnwys y cyfan o ogledd Clwyd. Nid yw ychwaith yn cynrychioli Gogledd Clwyd- nid oedd rhan ohoni (Gorllewin) yng Nghlwyd erioed. Hefyd, nid yw'n cynnwys yr Arfordir Gogleddol cyfan. Yr enw awgrymedig ar gyfer etholaeth newydd 14, beth fyddai'n eithrio'r enw Clwyd.

Byddai gan etholaeth 15 75,260 o etholwyr.

Ni fyddai gan etholaeth 14, Prestatyn mwyach, ond byddai ganddi Lan Orllewinol afon Clwyd fel y nodir uchod. Byddai'n ildio ward Llangollen Wledig. Er mai dyma'r enw, mae'r gair yma yn gwbl ar wahân i/ oddi wrth Llangollen. Mae'n ffurfio rhan o'r ardal sy'n cynnwys Cefn a Phlas Madog. Byddai'n eu huno yn etholaeth 22, Maldwyn a Glyndŵr.

Gan fod yr etholaeth yn cymryd bron â bod y cyfan o Ddyffryn Clwyd i mewn, gallai gael yr enw Clwyd. Mae’r etholaeth hon yn cwmpasu’r rhan fwyaf o hen ddosbarth. Gallai gael ei henwi ar ôl hynny felly- Glyndŵr.

D.S. y rhan o etholaeth 22 y cyfeirir ati fel Glyndŵr, nid oedd y rhan fwyaf ohoni ynddi erioed. Nid yw’n disgrifio’r ardal honno’n briodol. Felly mae’n well peidio â’i ddefnyddio ar ei chyfer. Byddai gan etholaeth 14 75,654 o etholwyr.




Etholaeth 2- Alun a Glannau Dyfrdwy- gyda’r etholaeth hon mae llawer yn dweud ei bod rhwng Treffynnon a Maes-glas. Mae Treuddyn a Llanfynydd yn wardiau gwledig ac yn fwy o ran o etholaeth 14. ynghyd â wardiau Coed-llai, Gwernymynydd, Llanarmon-yn-Iâl / Llandegla, ac ati. Felly cyfnewid Treffynnon (dwyrain, canol, Gorllewin) gyda’r ddwy ward hyn, Treuddyn a Llanfynydd. Gallai’r enw ar gyfer y ward hon fod fel uchod, neu Glannau Dyfrdwy yn syml. Byddai etholaeth dau yn gorfod colli ward Caergwrle hefyd er mwyn dod o fewn yr amrediad etholiadol. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried p’un a ydych yn meddwl bod Treffynnon yn fwy gyda’r etholaeth nag y mae Caergwrle? Gyda hyn yn digwydd, byddai ganddi 76,251 o etholwyr. Byddai gan etholaeth 14 75,098 o etholwyr

Etholaeth 13 – Wrecsam Mae ward Esclusham yn rhan fawr iawn o Wrecsam. Mae’n rhan o’r ardal adeiledig mewn gwirionedd. Felly, byddai’n mynd i mewn i etholaeth 31. Byddai nifer yr etholwyr ar gyfer yr etholaeth hon ac etholaeth 22 ill dau yn darparu ar gyfer ward Ponciau i fynd i mewn gyda Wrecsam hefyd, sef fel y mae yn yr awdurdod lleol hwnnw. Ond efallai ei fod mwy gyda’r lleill sydd gyda’r cynigion diwygiedig yn mynd i mewn i etholaeth 22. Dewis pobl y ward ddylai bennu p’un a ydynt yn etholaeth 31 neu etholaeth 22.

Felly gyda ward Esclusham, byddai gan etholaeth 31 72,977 o etholwyr.

D.S. Byddai nifer etholwyr y ward Esclusham hon (2013) yn dod oddi ar etholaeth 22. Ond cofiwch o'r uchod, byddai etholaeth 22 hefyd yn derbyn ward Llangollen Wledig (1613). Felly, byddai gan etholaeth 22 71,981 o etholwyr.

D.S. Mae'r etholaeth hon (22 Maldwyn a Glyndŵr) y mae'n rhan ohoni, y cyfeirir ati fel Glyndŵr, ar wahân o'r rhan Maldwyn mewn gwirionedd- gan ffurfio dwy ran ar wahân. Mae mynyddoedd Berwyn yn gwahanu'r ddwy. Dim ffyrdd, nid oes cyswllt/ cysylltiad/ teithio rhwng y ddwy. Felly, er mwyn mynd rhwng y ddwy mae'n rhaid i chi fynd tu allan i'r etholaeth. Adwaenir hyn, diffinnir hyn fel rhan ddatgysylltiedig. Dylid osgoi rhan ddatgysylltiedig yn llwyr, mae fel 2 etholaeth mewn un. Mae'r un yng Nghaerdydd wedi'i hunioni. Mae hon yn waeth. Hefyd, nid yn unig y mae'n rhaid i chi fynd y tu allan i'r etholaeth, ond y tu allan i'r sir. Yng Nghymru, byddai'n rhaid i chi fynd ar hyd yr A458 tua'r Gorllewin, yna'r A49 i'r gogledd ddwyrain am bellter hir iawn. Yr A5 yn Lloegr. Mae man cyfarfod delfrydol y ddau, yn yr un modd, yn Lloegr- Croesoswallt. Mae angen osgoi'r etholaethau â rhannau datgysylltiedig. Gall hon wneud hynny. Glyndŵr yn aros yn/ gyda NE. Maldwyn i fynd naill ai gyda Meirionnydd neu gyda gweddill Powys. Yn wir, gellid ffurfio etholaeth Powys. Mae'r dwyrain wedi'i gysylltu'n dda o'r brig i'r gwaelod gyda ffyrdd A da.

<u>Canolbarth a De Orllewin Cymru</u>

<u>Etholaeth 22 Maldwyn a Glyndŵr -</u> byddai'r etholaeth hon yn colli ward Esclusham ac yn ennill ward Llangollen Wledig- gweler uchod yng Ngogledd Cymru. Nid yw'r enw Glyndŵr yn cyfeirio at yr ardal gyfan sy'n cael ei hychwanegu at Faldwyn. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ardal honno yn hen ddosbarth Glyndŵr erioed. Nid yw'n disgrifio'r ardal- ddim yn dda yn sicr, ddim yn briodol. Mae angen dod o hyd i enw mwy priodol i gyfeirio at yr ardal hon. Dau awgrym fyddai naill ai Rhiwabon neu Rhosllannerchrugog. Gan nad yw'r un ward wedi'i henwi yn Rhosllannerchrugog. Gan fod ardal Rhosllannerchrugog yn fwy nag ardal Rhiwabon. Gan fod Rhosllannerchrugog yn brif dref, ceir ar fapiau yn aml. Byddai Rhosllannerchrugog yn enw da. Gallai etholaeth 22 gael yr enw Maldwyn Rhosllannerchrugog.

<u>Etholaeth 5 Brycheiniog, Maesyfed a Chwm-tawe-</u> nid yw'r etholaeth sylfaenol yn cynnwys y cyfan o Gwm-tawe. Dim ond rhan fach iawn. Nid yw'r rhan fwyaf o Gwm-tawe yn yr etholaeth hon. Mae'n gamarweiniol felly. Mae ond yn cynnwys rhan uchaf Cwm-tawe. Felly, yn gywir, naill ai Cwm-tawe- Uchaf neu Tawe- Uchaf. Fel ward mae'n cael ei galw yn Tawe- Uchaf er ei fod yn fwy cryno, efallai y byddai Cwm-tawe- Uchaf yn well etholaeth 'phone star' gyda phump, a byddai ganddi'r enw <u>Brycheiniog, Maesyfed a Chwm-tawe- Uchaf.</u>

<u>Etholaeth 13 Ceredigion Preseli</u> – mae hon yn etholaeth fawr iawn gyda ffordd sy'n un araf iawn. Er ei bod yn ffordd A, mae angen baeau pasio mewn llawer o leoedd. Mae hyn yn golygu cyswllt gwael a chysylltedd gwael. Mae Ceredigion yn ystyried bod hyn yn gyfuniad gwael. Maent yn ymwneud mwy â threfi Teifi. Maent wedi awgrymu, argymell etholaeth Ceredigion Teifi. Mae'n fwy cryno o lawer. Mae'n gyswllt gwell o lawer ac mae ganddo gysylltedd da. Mae Teifi llawer iawn yn y presennol a'r dyfodol. Mae wedi caffael yr enw Teifiside. Ac mae ganddo ei bapur newydd lleol ei hun, y Tivy-Side Advertiser. Mae rhyw hanner dwsin o drefi mawr ac

eraill. Felly dylai etholaeth 13 ddod yn Ceredigion Teifi. Gellir ffurfio hon yn hawdd. Gydag etholaeth bresennol Ceredigion, ychwanegu'r wardiau canlynol:

Llanybydder (2027), Llanfihangel-ar-Arth (2196), Llangeler (2772), Cenarth (1669), Clydau (1189), Cilgerran (1594), Llandudoch (1775), Crymych (2099), Trefdraeth (878), Dinas Cross (1313), Gogledd Orllewin Abergwaun (1208), Gogledd Ddwyrain Abergwaun (1495). Gan y byddai Ceredigion yn hoffi hyn, a gofyn amdano (gan gynnwys y cyngor) yna dyma fyddai'n ymddangos yn fwyaf addas a phriodol ar gyfer ymestyn/ ehangu Ceredigion. Yn sicr mae gan Teifi fwy o ddolenni, cysylltiadau a chyd-adweithio gyda Cheredigion na Phreseli. Byddai hefyd yn caniatáu i lawer o sir Benfro fod gyda'i gilydd. Felly, etholaeth Ceredigion Teifi. Byddai gan yr etholaeth 13 Ceredigion Teifi hon 76,366 o etholwyr.

Etholaeth 20 Canol a De Sir Benfro Ar hyn o bryd, mae gan Sir Benfro ddwy etholaeth. Un sydd yn gyfan gwbl yn Sir Benfro yn y gogledd a'r gorllewin a elwir yn Preseli Sir Benfro. Ac un yn y de a rennir gyda Sir Gaerfyrddin. Ni all hyn barhau, eto mae'n rhy fawr i wneud un etholaeth. Cael gymaint o Sir Benfro ag y bydd yr amrediad etholiadol ac ystyriaeth i etholaethau eraill yn caniatáu. Os cymerwn o un ardal mae darn/ talp rhy fawr yn cael ei symud. Yn amlwg, mae'n rhaid iddo fod yn y dwyrain, ac mae'r de-ddwyrain eisoes yn cael ei rannu. Felly, y cornel de-ddwyreiniol. Hefyd, y cornel gogledd ddwyreiniol. Mae hyn yn cydweddu'n dda gydag etholaeth 13 uchod. Y gwastadeddau arfordirol hyn fyddai'n ymddangos orau i leihau Sir Benfro i'r amrediad etholiadol. Felly, byddai wardiau Clydau, Cilgerran, Llandudoch, Crymych, Trefdraeth, Dinas Cross, Gogledd Orllewin Abergwaun, Gogledd Ddwyrain Abergwaun yn cael eu tynnu, gweler etholaeth 13 uchod, i ffurfio Ceredigion Teifi. Byddai wardiau Amroth (992), Saundersfoot (1904), Penalun (1398), Gogledd Dinbych-y-pysgod (1658), De Dinbych-y-pysgod (1664) yn cael eu tynnu i ymuno ag etholaeth 7. Caerfyrddin. Byddai'r holl wardiau eraill yn mynd i ffurfio etholaeth 20, a fyddai'n cael ei galw yn Sir Benfro, gyda 75,565 o etholwyr.


Etholaeth 7 Caerfyrddin Ar hyn o bryd, mae gan Sir Gaerfyrddin dair etholaeth, un yn cael ei rhannu gyda Sir Benfro. Gyda nifer etholwyr Caerfyrddin a'r amrediad etholiadol, gall Caerfyrddin gael dwy etholaeth. Byddai un gyda'i thref fwyaf, Llanelli. Byddai'r llall gyda thref Caerfyrddin. Byddai rhywfaint dros ben. Gyda hyn ac ystyriaeth i etholaethau eraill, byddai wardiau Llanybydder, Llanfihangel-ar-Arth, Llangeler, Cenarth yn mynd i ffurfio etholaeth 13. Ceredigion Teifi- gweler uchod. Byddai'r wardiau i ffurfio Llanelli, gweler etholaeth 18 isod, yn mynd gan ffurfio'r etholaeth honno. Byddai gweddill y wardiau, ynghyd â wardiau Amroth, Saundersfoot, Penalun, Gogledd Dinbych-y-pysgod a De Dinbych-y-pysgod yn mynd i ffurfio'r etholaeth hon. Gan ei fod yn cynnwys y rhan de-ddwyreiniol o Sir Benfro ynddo, yna mae angen i enw'r etholaeth adlewyrchu hyn. Mae'r cyfan yn cwmpasu Bae Caerfyrddin, ac mae'r enw hwn yn gynhwysol ac yn gryno. Felly etholaeth 7. Bae Caerfyrddin fyddai ei henw. Byddai gan yr etholaeth hon 70301 o etholwyr.

Etholaeth 18 Llanelli Mae Llanelli yn wahanol iawn i'r rhan fwyaf o Sir Gaerfyrddin. Mae'n drefol a diwydiannol, gan fod y rhan fwyaf o Gaerfyrddin yn wledig ac amaethyddol. Mae wedi'i dylanwadu'n fawr gan Feysydd Glo De Cymru. Yn yr un modd, gellir dweud hynny am Ddyffryn Aman. Felly, byddai'r ddwy etholaeth hyn yn

mynd gyda'i gilydd yn dda. Mae llawer o'r wardiau gwledig wedi dweud nad ydynt eisiau cael eu cynnwys yn / gyda Llanelli. Felly byddai peidio â rhoi wardiau gwledig gyda Llanelli, a gosod wardiau tebyg (ardal Rhydaman) gyda Llanelli yn ymddangos y ffordd gywir a'r ffordd orau i fynd.

Felly, gydag etholaeth bresennol Llanelli heb ward wledig Pontyberem (2154) - mae'n rhaid i Llanon a Glyn aros oherwydd yr amrediad etholiadol- a byddai wardiau Dyffryn Aman, sef Sarn (3353), Rhydaman (1984), Pontaman (2092) Betws (1825) Glanaman (1802) Garnant (1558) yn ffurfio etholaeth 18. Gellid ei henwi ar ôl y ddwy brif dref, Llanelli a Rhydaman. Gallai'r enw fod ar ôl y dref a'r dyffryn, Llanelli a Dyffryn Aman. Neu gallai fod yn Llanelli Aman, yn syml. Byddai etholaeth 18. Llanelli Aman. Byddai gan Llanelli Aman 71,229 o etholwyr.

<u>De Orllewin Cymru</u>




<u>Etholaethau Canolbarth a De Orllewin Cymru</u>

22. Maldwyn Rhosllannerchrugog 76953 } As revised proposals, except with
5. Brecon Radnor Cwm-tawe-Uchaf 72113 } 22. ward exchange (14./31.).
13. Ceredigion Teifi 76366 20. Pembrokeshire 75565
7. Caerfyrddin Bae 70301 18. Llanelli Amman 71229

Comisiwn Ffiniau
i Gymru
Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023